# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 25 MEHEFIN 2025 am 2.00 o'r gloch** | **WEDNESDAY, 25 JUNE 2025 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC Y RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen *(Is-Gadeirydd/Vice Chair),* Dylan Rees, Ken Taylor

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Paul Ellis

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

# R H A G L E N

1 **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mawrth a 20 Mai 2025.

3 **<u>DATBLYGU AELODAU</u>** (Tudalennau 7 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Rhelowr Dysgu a Datblygu AD.

4 **<u>AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR</u>** (Tudalennau 13 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

5 **<u>DIOGELWCH AELODAU</u>** (Tudalennau 19 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Carwyn E Jones, Jeff Evans, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Llio A Owen (Is-gadeirydd)<br>Y Cynghorydd Aled M Jones |

---

Yn absenoldeb yr Is-gadeirydd, cafodd y Cynghorydd Gwilym Jones ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2024, a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar gywiro enw'r Cynghorydd Carwyn E Jones.

Dywedodd y Pennaeth Democrataidd ei fod wedi trafod yr opsiwn o ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau yn yr iaith o'u dewis gyda'r Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau Dynol. Cytunwyd y bydd aelodau'n cael eu trin yr un fath a staff yn y dyfodol, a bydd sesiynau hyfforddiant Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnig i aelodau.

**3. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW) - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/2026**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Democrataidd ar benderfyniadau terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2025/2026.

Dywedodd y Pennaeth Democrataidd fod cynigion drafft yr IRP wedi'u trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Tachwedd, 2024. Yn ei ymateb i ymgynghoriad yr IRPW, mynegodd y Pwyllgor bryderon nad oedd yr IRPW wedi cynyddu taliadau i aelodau cyfetholedig, a all gael effaith negyddol ar y rôl y dyfodol. Nodwyd na wnaed unrhyw newidiadau i'r penderfyniadau terfynol, fydd yn dod i rym yn ystod mis Ebrill 2025.

Bydd y Cyngor yn cadarnhau adroddiad blynyddol yr IRPW ar 20 Mai 2025, a dyma'r adroddiad olaf fydd yn cael ei gyflwyno gan y Panel. Bydd ei swyddogaethau'n cael ei drosglwyddo i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 1 Ebrill 2025.

Mynegodd aelodau bryderon ynghylch sylwadau bychanol a beirniadaeth annheg gan y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol am strwythur tâl presennol yr Arweinydd, aelodau etholedig a'r Cyngor yn gyffredinol. Roedd aelodau'n teimlo fod diffyg dealltwriaeth ynghylch rôl Cynghorwyr ymhlith rhai aelodau'r cyhoedd, sy'n cael ei waethygu gan y cyfryngau cymdeithasol.

Gofynnodd y pwyllgor iddo gael ei nodi fod tâl Cynghorwyr yn cael ei osod gan banel annibynnol, yn seiliedig ar gyfartaledd cyflog yn yr ardal, ac nid gan aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn. Cadarnhaodd y Pennaeth Democrataidd fod taliad cydnabyddiaeth aelodau'n cael ei osod gan sefydliad annibynnol ar ran Cynghorau ledled Cymru.

Mewn perthynas â chyflog yr Arweinydd, dywedodd fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu rhannu yn dri grŵp penodol yn seiliedig ar nifer yr aelodau fesul pen poblogaeth. Mae Ynys Môn yn y grŵp isaf; felly, mae uwch gyflogau'n is yn yr awdurdod hwn na mwyafrif yr awdurdodau eraill yng Nghymru. Nodwyd fod gan Ynys Môn 'gap' o 17 uwch gyflog, ond dim ond 15 sy'n cael eu defnyddio, sy'n cyfateb i arbed dau uwch gyflog.

**PENDERFYNWYD nodi penderfyniadau o fewn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2025/26 (Chwefror 2025).**

## 4. DIWEDDERIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Democrataidd ar gefnogaeth i aelodau a materion llywodraeth.

Dywedodd y Pennaeth Democrataidd, yn dilyn yr adolygiad sgriwtini, y bydd paneli sgriwtini'n gwneud mwy o waith maes ac yn cynnal llai o gyfarfodydd. Bydd holl gyfarfodydd y pwyllgor a'r paneli sgriwtini yn gyfarfodydd hybrid, gyda'r disgwyliad y cynhelir cyfarfodydd paratoi a sesiynau briffio aelodau.

Mae gwelliannau diweddar i we-ddarlledu cyfarfodydd wedi cynnwys cysylltu ffrydiad byw gwe-ddarllediadau gydag eitemau penodol ar yr agenda. Mae data am nifer y gwylwyr yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi, sy'n arwain at gofnodi niferoedd gwylio cadarnhaol.

Mynegwyd pryderon fod aelodau'n gallu bod yn destun ymddygiad bygythiol difrifol a sylwadau enllibus ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y Pennaeth Democrataidd fod y Cyngor yn darparu gwasanaeth cwnsela, Medra, ar gyfer staff ac aelodau etholedig. Bydd canllawiau ar gyfer diogelwch personol hefyd ar gael ar gyfer aelodau'n fuan iawn. Mae trefniadau ar waith i PC Gareth Jaggard, Swyddog Aelodau Etholedig Heddlu Gogledd Cymru, gynnig hyfforddiant ar ddiogelwch personol i aelodau etholedig. Bydd 'Operation Ford', sy'n cael ei ariannu gan y

Swyddfa Gartref, hefyd yn darparu cyngor i aelodau lleol yn gyffelyb i'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau Seneddol yn San Steffan.

Nodwyd fod 26 o Adroddiadau Blynyddol wedi'u derbyn gan Aelodau Etholedig ar gyfer 2023/24, sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Atgoffwyd aelodau i gyflwyno eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2024/25 erbyn diwedd mis Mai, er mwyn eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

Dywedodd y Pennaeth Democrataidd mai prif bwrpas adolygiadau blynyddol aelodau gydag Arweinyddion Grwpiau yw hwyluso anghenion hyfforddi. Bydd angen trafod unrhyw ofynion hyfforddi sy'n deillio o'r sgwrs flynyddol gyda'r Tîm Hyfforddiant cyn diwedd Ebrill, er mwyn gallu ystyried ceisiadau a'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Aelodau ar gyfer 2025/26.

Dywedodd y Pennaeth Democrataidd y bydd rhaid i aelodau gofrestru unrhyw roddion/ lletygarwch neu ddiddordebau/newidiadau mewn amgylchiadau cyn pen 28 diwrnod gwaith. Dywedodd fod cofnodion hyfforddi newydd ar gael ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10:45 am

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans, Non Dafydd, Carwyn Jones, Aled M Jones, G O Jones, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Keith Roberts, Ken Taylor. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Non Dafydd – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Llio Angharad Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | MEHEFIN 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION DYGU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar faterion dysgu a datblygu aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2024 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynhigiwyd i'n Haelodau Etholedig dros y cyfnod diwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Fel y byddwch yn ymwybodol mae'r cynllun dysgu sydd wedi ei osod ar gyfer ein Haelodau Etholedig wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; **Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu**. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn cynnig diweddariad isod ar y ddarpariaeth hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd at hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 55 o gyfleoedd dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Manylion llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 35/35 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 31/35 |
| Diogelu Data | 33/35 |
| Seiberddiogelwch | 35/35 |
| Diogelu | 29/35 |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu'r teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Mae gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen er mwyn uchafu niferoedd cwblhau y teitlau hyn.

## 3. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor hwn mae cynnydd wedi ei wneud ar roi'r Cynllun dan sylw ar waith. Fel diweddariad;

- Mae pob un o'n Harweinyddion Grwpiau wedi cwblhau Proffil DiSC (math o broffil personoliaeth) a lle'n berthnasol wedi ymgymryd â Sesiwn Dadansoddi 1:1 gydag hyfforddwr annibynnol.
- Mae dyddiadau er mwyn bwrw ymlaen â'r ail gam, sef cyfres o sesiynau cymhelliant ffurfiol wedi eu rhannu er mwyn rhoi'r agwedd hon o'r cynllun ar waith.

Noder fod darpariaeth wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau uchod ar gael yn ddwyieithog ac i ddilyn yn newis iaith yr unigolyn.

Ymhellach i hyn byddem yn edrych ar bob cyfle i gyfeirio ein Haelodau Etholedig at y trwch ddarpariaeth sydd ar gael gan CLlLC ac Academi Cymru fel y bo'n berthnasol.

## 4. CYFATHREBIADAU

Mae'r cydweithio agos rhwng y Tîm Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaeth Democrataidd ac unrhyw Swyddogion perthnasol eraill yn yr Awdurdod yn parhau i'w gyfrif yn effeithiol. Hynny'n sicrhau bod unrhyw gynllun yn mynd i'r afael ag anghenion ein Haelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu'n ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost *CefnogaethAelodau*, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag Arweinwyr Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

## 5. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau'n cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, mae'r symudiad diweddar i fod yn cynnig rhai sesiynau rhithiol yn ogystal yn parhau gydag opsiwn pellach lle'n addas ac yn berthnasol i fod yn recordio sesiynau at ddefnydd pellach. Noder, bod y dull cyflwyno'n ddibynnol ar y

pwnc dan sylw yn ogystal â pha ddull a gynigir / ffafrir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

Yn unol â'r adborth dderbyniwyd yng nghyfarfod Tachwedd 2024 o'r Pwyllgor hwn mae sesiynau erbyn hyn yn cael eu cynnal fel sesiynau uniaith Gymraeg a Saesneg ar wahân, hyn er mwyn unioni gyda'r trefniant Corfforaethol i staff. Fodd bynnag, noder bod cynnal y trefniant hwn yn ddibynnol ar allu sicrhau lefelau mynychu iach i'r sesiynau fydd yn cael eu cynnal.

## 6. I GRYNHOI

Mae'r cynllun dan sylw yn parhau i'w chyfri'n esblygol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diwygio'n ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 7. ARGYMHELLIAD

I nodi cynnwys yr adroddiad

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig 2023 - 2025**

**Training and Development offered to Elected Members 2023 - 2025**

| Teitl y Cwrs | Mynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **12** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **4** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma?** | **5** | **11** | **What does it mean to be a Trauma Informed Island** |
| | **2** | **2** | **Cyber Security Video** |
| **Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr** | **1** | **1** | **Progressive Community Leadership Training** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **7** | **20** | **Health & Safety for Members** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **4** | **20** | **Health & Safety for Members** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | | | **Anti Racism** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | **9** | **35** | **Anti Racism** |
| **Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth** | **9** | **35** | **Group 6: Strengthening Leadership** |
| **(VAWDASV)** | **9** | **35** | **(VAWDASV)** |
| **Rhentu Doeth Cymru** | **2** | **10** | **Rent Smart Wales** |
| **Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)** | **16** | **6** | **Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV)** |
| **Cynllunio i Aelodau** | **34** | **26** | **Planning for Members** |
| **Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau ar y Côd Ymddygiad** | **10** | **6** | **Standards Committee's Code of Conduct Hearings** |
| **Cynllunio - Cyfarwyddyd Erthygl 4** | **33** | **23** | **Planning - Article 4 Direction** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **9** | **9** | **Health and Safety for Members** |
| **Diogelu Data (**cwrs staff yn agored i bawb**)** | **6** | **4** | **Data Protection (**staff course open to all**)** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (**cwrs Cymraeg i staff, wedi agor i bawb**)** | **5** | **0** | **Equality, Diversity, and Inclusion (**Welsh staff course opened to all**)** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (**cwrs Saesneg i staff, wedi agor i bawb**)** | **5** | **1** | **Equality, Diversity, and Inclusion (**English staff course opened to all**)** |
| **Seibrddiogelwch i Aelodau** | **1** | **1** | **Cyber Security for Members** |
| **Craffu ar y Gyllideb: Edrych Ymlaen** | **-** | **2** | **Budget Scrutiny: Looking Forward** |
| **Seibrddiogelwch i Aelodau** | **1** | **1** | **Cyber Security for Members** |
| **Sesiwn 'Cyber Ninjas' i Gynghorwyr** | **35** | **7** | **'Cyber Ninjas' session for Councillors** |
| **Dangos Effaith - Gofyn y cwestiwn 'felly beth'** | **-** | **3** | **Demonstrating Impact - Asking the 'so what' question** |
| **Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg** | **1** | **1** | **Welsh Language Awareness** |
| **Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)** | **2** | **2** | **Communication and Collaboration workshop (DiSC©)** |
| **Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)** | **1** | **1** | **Communication and Collaboration workshop (DiSC©)** |
| **Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)** | **1** | **1** | **Communication and Collaboration workshop (DiSC©)** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd (**cwrs staff yn agored i bawb**)** | **-** | **1** | **Introduction to Climate Change (**staff course open to all**)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Amseru Cyfarfodydd y Cyngor |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cael cytundeb y pwyllgor i ymgynghori gyda aelodau. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gynnal arolwg ymhlith yr Aelodau o ran amseru ei gyfarfodydd. Dylai pob awdurdod lleol adolygu amseroedd cychwyn cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor, gorau oll petai hynny'n fuan ar ôl ethol Cyngor newydd.

2. Ymgynghorwyd gyda aelodau ar amseru cyfarfodydd yn ystod hydref 2022, felly mae'r angen i adolygu'r trefniadau yn ystod tymor y Cyngor hwn wedi ei gyfarch. (Copi o'r adroddiad canfyddiadau yn 2022 - Amseru Cyfarfodydd y Cyngor.pdf)

3. Ers hynny fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i gynorthwyo Cynghorau ar fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r canllawiau yn cynnwys rhagor o wybodaeth am drefniadau cyfarfodydd, felly mae'n amserol ymgynghori gyda aelodau unwaith eto.

**Cyd-destun**

4. Mae'r pwyllgorau a'r cyfarfodydd a nodir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys y Cyngor llawn a phob pwyllgor ffurfiol a sefydlwyd dan bwerau a ddirprwywyd gan y Cyngor. Nid yw cyfarfodydd eraill fel sesiynau briffio, paneli craffu a chyfarfodydd paratoi yn cael eu cynnwys, ond bydd yr egwyddorion yn cael eu cymhwyso cyn belled ag y bo'n bosibl.

**Sefyllfa gyfredol**

5. Ar hyn o bryd caiff pob pwyllgor ffurfiol ei gynnal unai am 10 yb, neu am 2yh.  Yr unig eithriad i hynny ydi'r pwyllgor cynllunio sy'n cychwyn am 1yh, a chyfarfodydd arbennig achlysurol.

6. Cynhelir pwyllgorau ffurfiol ar ddyddiau Mawrth, Mercher ac Iau a chaiff cyfnodau gwyliau ysgol eu hosgoi ble mae'n bosibl.

7. Trefnir slot o 2 neu 3 awr ar gyfer pwyllgorau fel arfer. Ond bydd hyd y cyfarfod yn dibynnu ar gynnwys y rhaglen a natur y trafodion.  Os bydd cyfarfod yn parhau am fwy na 3 awr, mae'n ofyniad cyfansoddiad (adran 4.1.10) i'r cadeirydd ofyn i'r aelodau am gydsyniad i barhau. Gwneir hyn drwy bleidlais.  Fel arall bydd gweddill y busnes yn cael ei ystyried ar ddyddiad a bennir gan y cadeirydd, neu yn ystod cyfarfod arferol nesaf y pwyllgor.

8. Cynhelir holl bwyllgorau ffurfiol y Cyngor yn aml-leoliad unai yn y Siambr, neu yn y stafell bwyllgor gyda mynediad rhithiol o bell ar gael hefyd.

**Ystyriaethau**

9. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen ystyried y materion canlynol wth ymgynghori gyda aelodau:

   *"Adran 1.11*

   a. *A fyddai hi'n well cynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos;*
   b. *A fydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, yn gyfan gwbl ar-lein, neu mewn sawl lleoliad;*
   c. *Yr hyd a ffafrir ar gyfer cyfarfodydd;*
   d. *A yw adegau penodol yn achosi trafferthion i gynghorwyr â nodweddion penodol, fel oedran, rhyw, crefydd, cyfrifoldebau gofalu neu fod mewn cyflogaeth."*

10. Fel eglurir ym mharagraff 8 uchod, caiff cyfarfodydd pwyllgor y Cyngor eisoes eu cynnal yn aml-leoliad.  Mae hefyd yn ofyniad cyfansoddiadol i'r Cyngor alluogi aelodau i fynychu cyfarfodydd o bell.  Rydym yn cynnig felly nad oes diben ymgynghori ar y pwynt hwn, ond fe wnawn ni ymgynghori ar y tri mater arall uchod.

11. Yn 2022, fe wnaeth y Cyngor ymgynghori gyda aelodau ar 4 amser posibl, sef 10yb, 2yh, 4yh a 6yh.  Er mwyn cysondeb, rydym yn cynnig ymgynghori ar yr un amseroedd unwaith eto a rhoi cyfle i aelodau gynnig sylwadau ychwanegol.

**Amserlen**

12. Cynigir ymgynghori gyda aelodau am gyfnod o 6 wythnos yn ystod Gorffennaf ac Awst. Yn dilyn hynny caiff adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Democrataidd yn yr hydref ac adroddiad i'r Cyngor Sir yn Rhagfyr.

**Argymhelliad**

13. Gofynnir i'r Pwyllgor:

   a. Cytuno i ymgynghori gyda aelodau ar amseru cyfarfodydd
   b. Cytuno i'r amserlen a nodir ym mharagraff 12
   c. Ystyried a chymeradwyo'r ddogfen ymgynghori yn atodiad A.

**Atodiad A / Appendix A**

Amseriad Cyfarfodydd / Timing of Meetings

Enw / Name ______________________________________________________________________________________________

1. Gofynnir i Aelodau nodi eu dewis (yn nhrefn blaenoriaeth 1,2,3, a 4) a hefyd nodi unrhyw sylwadau ychwanegol / Members are requested to note their preferences (in priority order 1,2,3, and 4) and include any other comments.

| **A - Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings** | | | | Sylwadau Ychwanegol / Additional Comments |
|---|---|---|---|---|
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |
| **B - Pwyllgor Gwaith / Executive Meetings** | | | | |
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |
| **C - Pwyllgorau Craffu / Scrutiny Committees** | | | | |
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ch - Pwyllgorau Lled-Farnwrol – Cynllunio, Awdit, Democrataidd, Penodiadau, Apeliadau, Trwyddedu, Ymchwilio, Disgyblu,**<br><br>**Quasi-Judicial Committees – Planning, Audit, Democratic, Appointments, Appeals, Licensing, Investigation, Disciplinary** | | | | |
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m.<br><br>(1.00 p.m. Cynllunio / Planning) | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |
| **D – Pwyllgorau eraill – CYS, Polisi Cynllunio, Safonau, Is-Bwyllgor Indemniadau**<br><br>**Other Committees – SAC, Planning Policy, Standards, Indemnities sub-Committees** | | | | |
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |

2. Gofynnir i Aelodau nodi unrhyw sylwadau am hyd cyfarfodydd / Members are asked to note any comments about the length of meetings.

| Sylwadau / Comments |
|---|
| |

3. Gofynnir i Aelodau nodi unrhyw sylwadau am adegau penodol sy’n achosi trafferthion iddynt o safbwynt nodweddion penodol, fel oedran, rhyw, crefydd, cyfrifoldebau gofalu neu fod mewn cyflogaeth. / Members are asked to note any comments about specific times that cause difficulties with particular characteristics, such as age, gender, religion, having caring responsibilities or being in employment.

| Sylwadau / Comments |
| --- |
| |

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diogelwch Aelodau |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Derbyn sylwadau'r Pwyllgor ar faterion diogelwch aelodau. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae'r adroddiad yma yn egluro'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael i aelodau o safbwynt eu diogelwch personol ac yn cynnwys cynigion ar gyfer canllaw i'w rannu gyda aelodau yn ehangach.

2. Prin yw'r achosion o drais yn erbyn ffigurau cyhoeddus yng Nghymru, ond mae bygythiadau llafar ac aflonyddu ar-lein ar gynnydd. Mae gan aelodau cynghorau sir rôl amlwg wrth ymwneud a'r cyhoedd a'r gymuned, felly mae'n bwysig eu bod yn deall y camau y dylen nhw eu cymryd i gadw eu hunain yn ddiogel.

3. Fel arweinwyr cymunedol mae'n debygol bydd aelodau yn:

    a. Ymweld â phobl yn eu cartrefi
    b. Ymdrin â'r rhai sydd wedi galw heibio eu cartref
    c. Cynnal cymorthfeydd
    d. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus
    e. Teithio, boed ar gludiant cyhoeddus neu breifat
    f. Cyfathrebu ar-lein

4. Os oes gan aelod, yn rhinwedd ei rôl ar y Cyngor, bryder penodol am ddiogelwch personol, mae'n bwysig eu bod yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Democrataidd, neu i'r heddlu mewn amgylchiadau difrifol. Mae cyngor a chymorth ar gael i gynorthwyo aelodau os oes angen.

5. Mae'n bwysig nodi bod canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn nodi bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gefnogi preifatrwydd aelodau etholedig drwy beidio cyhoeddi cyfeiriadau cartref oni bai bod yr aelod ym dymuno gwneud. Ar

wefan y Cyngor, defnyddir cyfeiriad swyddfa'r Cyngor yn Llangefni fel cyfeiriad cyswllt nifer o aelodau.

**Cefnogaeth**

6. Yn 2024, cyhoeddwyd y Protocol Plismona Amddiffyn Democratiaeth gan y Swyddfa Gartref, a sicrhawyd cyllid i ehangu'r cynnig diogelwch i aelodau etholedig llywodraeth leol drwy "Ymgyrch Ford".

7. Fel rhan o hynny crëwyd rôl Cynghorydd Swyddogion Etholedig yn Heddlu Gogledd Cymru. Rôl benodol y swyddog ydi cynghori cynghorwyr sir ar faterion diogelwch ac mae'r swyddog wedi bod yn darparu sesiynau briffio ar ddiogelwch i aelodau dros y misoedd diwethaf. Mae mwy o sesiynau wedi eu cynllunio ar gyfer ail hanner 2025.

8. Yn ogystal a'r Heddlu, mae nifer o sefydliadau eraill yn darparu cyngor ar ddiogelwch i aelodau gan gynnwys:

    a. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – cyngor ar sut i ymdrin ag achosion o gam-drin ar-lein - 180104 - WLGA Guidance - Online Abuse of Councillors - Final - cym
    b. Comisiwn Etholiadol – canllaw i ymgeiswyr etholiadau ar sut i gadw'n ddiogel - Joint Guidance for Candidates in Elections 2024 Welsh (002) (2)_0.pdf
    c. Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh – cyngor ar ddiogelwch personol a sut i ddelio gyda stelcian - Personal Safety & Lone Working advice and information (Saesneg yn unig)
    d. Get Safe Online – cyngor cyffredinol ar sut i fod yn ddiogel ar-lein - https://www.getsafeonline.org/wales/amdanom-ni/
    e. Gwasanaeth Erlyn y Goron – cyngor ar sut i ymateb i ymddygiad bygythiol yn erbyn rhywun mewn swydd gyhoeddus - Responding to intimidating behaviour in elections and public office: a CPS guide | The Crown Prosecution Service (Saesneg yn unig)

9. Er mwyn cadw'n ddiogel y cyngor cyffredinol ydi:
    a. Cadw cofnod o unrhyw ymddygiad bygythiol – beth, ble a phryd
    b. Peidio ymgysylltu gyda unigolion sy'n eich aflonyddu / stelcian ar-lein neu mewn person
    c. Defnyddio adnoddau adrodd a blocio ar wefannau cymdeithasol
    d. Adolygu eich gwybodaeth ar-lein er mwyn lleihau faint o wybodaeth bersonol sydd ar gael
    e. Cysylltu gyda'r Gwasanaeth Democrataidd os am gyngor neu i adrodd pryder.
    f. Cysylltu gyda'r Heddlu yn syth os ydych chi'n teimlo eich bod mewn perygl.

10. Mae’n bosibl y gall pryderon am ddiogelwch ac aflonyddu gael effaith niweidiol ar lesiant aelodau. Os felly mae gwasanaeth cwnsela’r Cyngor a ddarperir gan Medra ar gael i aelodau.  Mae’n wasanaeth cyfrinachol, proffesiynol sydd ar gael yn Gymraeg neu’n Saesneg.

11. Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn datblygu canllaw syml i aelodau dros yr haf yn cynnwys y wybodaeth uchod ac yn argymell bod unrhyw aelod sydd ddim wedi bod ar sesiwn diogelwch heddlu gogledd Cymru yn gwneud hynny mo fuan a phosibl.

12. Rydym yn croesawu mewnbwn y pwyllgor ynghylch unrhyw beth arall i’w gynnwys yn y canllaw i aelodau, neu unrhyw fater arall i ni ei ystyried o safbwynt diogelwch.

**Argymhelliad**

13. Gofynnir i’r Pwyllgor:
    a. nodi cynnwys yr adroddiad a chynnig sylwadau ar faterion diogelwch
    b. cytuno i’r Gwasanaeth Democrataidd annog pob aelod i fynychu hyfforddiant diogelwch yr Heddlu
    c. cytuno i’r Gwasanaeth Democrataidd rannu dogfen ganllaw syml gyda aelodau.

This page is intentionally left blank